‘Tonnau deallusol’: tswnamis mawr y meddwl

Yn ei erthygl ar ‘Tswnamis Bach a Mawr’ (*Y Traethodydd*, Ionawr 2008) mae Gareth Wyn Jones yn gwrthgyferbynnu’r meddylfryd gwyddonol â Ffwndamentaliaeth yn arbennig ond hefyd â theistiaeth yn fwy cyffredinol. Yn sgîl yr hyn a wyddom am ein byd ar ôl tair canrif o ymchwil wyddonol, mae’n casglu nad yw cred mewn Duw hollalluog yn gyson â’r wybodaeth hon. Mae hyn yn cynnwys cred mewn Duw cariad yn yr ystyr draddodiadol ond o leiaf mae’r fath gred yn coleddu rhyw elfen o wirionedd, sef egwyddor cariad fel llyw moesol i ddynoliaeth. Dyma ein hangen – fframwaith moesol yn gwmni i ddatblygiadau gwyddonol a thechnegol y dyfodol.

Mae gennyf ryw fesur o gydymdeimlad â’r awdur. Fe all y byd a ddatgelir gan wyddoniaeth fodern ymddangos yn anghyson â byd crediniaeth draddodiadol ac, os felly, onid rhesymol yw derbyn y naill a gwrthod y llall? Llwyr gytunaf ar bwysigrwydd mabwysiadu fframwaith moesegol gwahanol i’r hyn a gyhoeddir gan ambell i grefydd neu grefyddwyr blaenllaw. Ond ‘ymddangos’ yw’r gair allweddol yn y frawddeg uchod. Ac am y ffordd ymlaen i’r dyfodol – wel, credaf fod yr awdur yn cofleidio rhith yn y pen draw, er nad wyf yn dweud hyn mewn ysbryd gelyniaethus.

Yn fynych, y tu ôl i gamddealltwriaeth feddyliol, mae rhag-dybiaethau mwy cyffredinol yn llechu. Hyderaf mai buddiol fydd tynnu sylw at dri pheth cyn rhuthro i fynd i’r afael â manylion dadl yr erthygl. Pwysleisiaf nad yw’r sylwadau hyn yn uniongyrchol yn ymateb i’r ddadl honno, a lle byddaf yn sôn am gamddealltwriaeth, nid wyf o anghenraid yn meddwl am yr ysgrif ei hun.

1. Fe glywn yn gyson mewn datganiadau cyhoeddus fod crefyddwyr yn meddu ar berspectif ffydd, rhywbeth gwahanol i berspectif rheswm. Eithr rheswm sydd â’r hawl i deyrnasu mewn democratiaeth seciwlar, ryddfrydol a lluosog pan awn ati i lunio polisïau gwleidyddol a chymdeithasol. Dylid goddef perspectif ffydd ac nid oes dim yn rhwystro’r sawl sydd ag argyhoeddiadau crefyddol rhag cymryd rhan ar bob lefel ym mywyd cyhoeddus y gymdeithas. Ond ni ddylid ymgorffori eu safbwyntiau mewn sefydliadau cyhoeddus.

Cyfyd cwestiwn yma ynglŷn â seiliau meddyliol trefn gymdeithasol a deddf gwlad, ond nid yw hyn yn berthnasol yma. Beth sydd yn berthnasol yw’r rhagdybiaethau ynglªn â natur ffydd a natur rheswm, tybiaethau cyffredin ymhlith gwyddonwyr ac eraill, sydd yn hanner cuddiedig y tu ôl i’r agwedd hon. O safbwynt ôl-foderniaeth, creadur rhyfedd yw’r rhethreg gyhoeddus, gan nad oes y fath beth â ‘rheswm’ niwtral, cyffredin i bawb, dan yr haul, ac nid yw rheswm seciwlar yn fwy dilys yn feddyliol na ffydd grefyddol. Ar y llaw arall, mae ôl-foderniaeth ei hun yn greadur digon rhyfedd i nifer o feddylwyr, gan gynnwys gwyddonwyr. Felly gadewch i mi, er mwyn y ddadl, edrych ar Gristnogaeth o fewn y fframwaith a ddefnyddir gan Gareth Wyn Jones, o’r hyn ’r wy’n ei weld, sef fframwaith yr Oes Oleuedig, i ddefnyddio disgrifiad braidd yn ddioglyd, er cyfarwydd.[1]

Rhaid camu yn ôl am foment. Yn y Canol Oesoedd, ymgodymai rhai meddylwyr Islamaidd gyda phroblem deall y berthynas rhwng athroniaeth gwlad Groeg a dysgeidiaeth y Qur’an. Fe’u tynnwyd mewn gwahanol gyfeiriadau; ar ambell i bwnc, teimlwyd fod rhaid dal fel mater o ffydd at ddysgeidiaeth a oedd yn annerbyniol o ran ymresymiad athronyddol. Gresynai’r diwinydd ac athronydd Cristnogol, Tomos o Acwin,

fod y fath sefyllfa wedi datblygu. Credai mai dianghenraid a pheryglus oedd y tyndra rhwng ffydd a rheswm. Cytunai fod rhai pethau yn hysbys i ffydd ond nid i reswm, e.e. athrawiaeth y Drindod; ond rhywbeth y tu hwnt i reswm, nid yn erbyn rheswm, yw'r athrawiaeth hon. Ar y llaw arall, y mae pethau y gallwn eu credu naill ai ar sail ffydd (yn achos y werin) neu ar sail rheswm (yn achos athronwyr). Enghraifft holl-bwysig yw'r gred fod Duw yn bodoli. Felly mae rheswm yn gefn i ffydd ond mae ffydd yn mynd ymhellach na rheswm.

Heriwyd safbwynt Acwin gan athronwyr Cristnogol a ddadleuai (yn fras) nad oedd rheswm yn tanseilio ffydd yn wir, ond nad oedd rheswm yn cefnogi ffydd ychwaith. Mae rheswm yn ymwneud â'r byd empeiraidd, byd y synhwyrau, tra bo ffydd yn ymwneud â'r hyn sydd y tu hwnt i'r synhwyrau, y byd trosgynnol. Aeth gwahaniaethau meddyliol yn fater diwylliannol pwysfawr gyda dyfodiad y Diwygiad Protestannaidd, a gwahanol garfanau crefyddol yn dadlau ac yn ymladd yn enw Ysgrythur, Eglwys a Ffydd. Yng nghanol y bwrlwm, ailgyhoeddwyd yn Ewrob destunau o law athronwyr sgeptigaidd y byd Clasurol. Yn ôl rhai o'u plith, ni allwn ni wybod dim. Yn ôl eraill, dogmatiaeth oedd y fath osodiad, gan fod y sawl sydd yn ei wneud yn honni eu bod yn gwybod un peth, sef na allwn ni wybod dim. Beth bynnag ein syniadau athronyddol ar faterion mor ddifyr, rhwydd deall sut yr ymddangosai holl ogwydd rhesymol sgeptigiaeth yn fwy iachus i gymdeithas na dogmatiaeth grefyddol. A dyma ni ar y llwybr i resymoliaeth yr Oes Oleuedig. Yr ydym yn ddigon cyfarwydd â'r cyhuddiad heddiw: mae Cristnogaeth yn wrth-resymol a dogmatiaeth grefyddol yn gymdeithasol drychinebus.

Yna camodd John Locke ar y llwyfan, 'llywodraethwr meddyliol y [ddeunawfed] ganrif', chwedl Leslie Stephen (tad Virginia Woolf).[2] Ar seiliau athronyddol, gan sylwi'n arbennig ar wyddoniaeth ei oes, casglodd Locke fod cyfyngiadau sylweddol ar yr hyn a allwn ei wybod trwy reswm. Mae 'gwir hanfod' ('*real essence*') gwrthrychau a ffenomenâu yn y byd naturiol yn guddiedig. Ond nid crefydd sydd yn ceisio gosod rheswm mewn cadwynau. Defnyddio a dadansoddi'r meddwl gwyddonol sydd yn ein harwain i gydnabod y ffiniau. Amhosibl i ni brofi neu wrthbrofi, neu hyd yn oed ddangos tebyg-olrwydd neu anhebygolrwydd, yn wyddonol neu yn athronyddol nifer o osodiadau crefyddol fel: 'Atgyfodir y meirw'. Felly beth a wnawn – credu'r fath osodiad mewn ffydd? Dim o gwbl. Mae gan reswm ei swyddogaeth o hyd. Rhaid ei ddefnyddio i farnu ansawdd y dystiolaeth i ryw wirioneddau honedig fel: 'Atgyfodwyd Iesu o Nasareth oddi wrth y meirw'. Anghredadwy yw unrhyw dystiolaeth sydd yn amlwg yn gwrth-ddweud yr hyn a brofir gan reswm. Annerbyniol yw unrhyw dystiolaeth sydd yn cael mynegiant mewn geiriau a syniadau annealladwy neu anghydlynol. Tragwyddol heol i reswm, felly. Ond, casglodd Locke, wedi dweud hyn, mae Cristnogaeth yn sefyll prawf rheswm. Yn wir, mae'n gyfrifoldeb ar y meddyliwr gwir wyddonol i dderbyn y dystiolaeth, os yw am fod yn rhesymol.[3]

Nid wyf yn poeni, fan hyn, a oedd Locke yn gywir neu yn anghywir yn ei ddull a'i ganlyniad. Nid wyf, ychwaith, am ddilyn trywydd y cwestiwn diddorol: sut aeth y ddeunawfed ganrif i gyferiaid anffyddiol i'r graddau y gwnaeth hynny, hyd yn oed pan oedd dan ddylanwad y Cristion, John Locke? Beth sydd yn arwyddocaol yw'r ffaith fod Locke yn cynrychioli etifeddiaeth gyfoethog yn hanes meddyliol Cristnogaeth ar drothwy yr Oes Oleuedig, gan oroesi'r oes hwnnw. Nid perspectif afresymol yw perspectif ffydd. Gellid – a dylid – dangos fod ffordd rheswm yn arwain tuag at ffydd. Dyma un haen o'r traddodiad Cristnogol.

2. Mae camddealltwriaeth yn amlwg heddiw nid yn unig ynglŷn â natur y traddodiad Cristnogol ond hefyd ynglŷn â'r Ysgrythurau sydd wrth wraidd y traddodiad. Anodd osgoi sôn am Richard Dawkins yn y fan hon. Y mae Dawkins nid yn unig yn hollol afresymegol yn ei ddadl ynglŷn â Neo-Ddarwiniaeth a Christnogaeth (fe ddown at hynny

eto) ond y mae hefyd yn hollol anghywir yn ei osodiadau ar fater agwedd Cristnogaeth tuag at ffydd a rheswm. Peth afresymol yw ffydd; mae credinwyr yn llawenhau yn hyn ac yn gwneud rhinwedd allan o wrth-reswm. Felly Dawkins.[4] Nid dim ond Ffwndamentaliaeth sydd ganddo: yn y Testament Newydd, yr unig ddisgybl gwerth chweil yw Thomas.[5] Yr wyf am ddilyn am foment lwybr sydd yn bygwth ymdroelli ymaith oddi wrth y materion dan sylw, ond fe gawn weld yn ddiweddarach mai pwrpasol ein camau.

Dyma ddechreuad efengyl Luc: 'Yn gymaint â bod llawer wedi ymgymryd ag ysgrifennu hanes y pethau a gyflawnwyd yn ein plith, fel y traddodwyd hwy inni gan y rhai a fu o'r dechreuad yn llygad-dystion ac yn weision y gair, penderfynais innau, gan fy mod wedi ymchwilio yn fanwl i bopeth o'r dechreuad, eu hysgrifennu i ti yn eu trefn, ardderchocaf Theoffilus, er mwyn iti gael sicrwydd am y wybodaeth a dderbyniaist' (1:1-4). Hynny yw: 'Theophilus, nid wyf i am i ti gredu dim ond achos dy fod wedi cael dy ddysgu i gredu. Nid yw ffydd ddall yn gwneud dim lles i ti. Felly, gad i mi gyflwyno i ti ffrwyth fy ymchwil.'

Yn 2009, amhosibl ymchwilio yn fanwl i ymchwiliad Luc. Yr hyn sydd yn arwyddocaol yw ei fod yn gwneud popeth ond cymeradwyo ffydd ddall. I'r gwrthwyneb, mae am arddangos seiliau empeiraidd cred yr eglwysi. Nid yw yn honni *profi* gwirionedd ffydd trwy ymchwil a chyflwyno ei ymchwil hanesyddol. Dweud y mae fod cred Gristnogol yn *seiliedig* ar dystiolaeth i'r hyn a welwyd, glywyd, 'ac a deimlodd ein dwylo' (1 Ioan 1:1). Pam ydwyf yn tynnu sylw at hyn? Am un peth, mae geiriau Luc yn taflu goleuni ar y ffordd yr oedd awduron beiblaidd yn meddwl am le rheswm (yn yr ystyr o ddilyn tystiolaeth y synhwyrau) mewn crefydd.[6] Ond, yn fwy na hyn, yr wyf am dynnu sylw at seiliau cred Gristnogol yng nghyd-destun gwyddoniaeth. A siarad yn fras, nid oes gan y gwyddonydd fel gwyddonydd ddiddordeb mewn hanes fel hanes yn ystyr arferol y gair. (A siarad yr yn mor fras, nid oes gan yr hanesydd fel hanesydd lawer o ddiddordeb mewn gwyddoniaeth fel gwyddoniaeth, ychwaith). Ond felly rhaid i ni fod yn ofalus wrth geisio dod i gasgliadau ynglŷn â Duw neu grefydd ar sail gwyddoniaeth. Mae o leiaf ddau berygl yn gwmni i'r gwyddonwyr. Y cyntaf yw'r perygl o ddod i gasgliadau metaffisegol, athronyddol neu grefyddol fel petai'r casgliadau hynny yn gynnyrch ymresymiad *gwyddonol*. Yr ail yw'r perygl o ddod i gasgliadau ynglŷn â realiti trwy graffu yn unig, neu o leiaf yn bennaf, ar y byd naturiol, gwrthrych diddordeb y gwyddonydd. Ond efallai mai trwy hanes, nid trwy natur, y datguddir Duw.

3. Yr ydwyf am nesáu yn awr at fanylion y ddadl dan sylw. Mae Gareth Wyn Jones am ymwrthod â'r honiad fod gwyddoniaeth a chrefydd yn ymwneud â gwirioneddau sydd yn perthyn y sfferau gwahanol. Oherwydd, meddai, mae'n amlwg nad yw'r haul yn cylchdroi'r ddaear; nad yw *homo sapiens* yn greadigaeth unigryw a bod deuoliaeth Gartesaidd yn chwalu (tud.20). Dylid dadansoddi ei ymadrodd 'creadigaeth unigryw', bid sicr, ond, yn gyffredinol, y ddadl yw na ellir amddiffyn honiadau crefyddol rhag grym gwirioneddau gwyddonol. O'r gorau; ond beth a ddigwyddodd yn hanes diwinyddiaeth mewn perthynas â gwyddoniaeth?

Yn y ddadl dros Galileo, chwaraeodd ystyriaethau gwleidyddol-eglwysig ran fawr yn ei gondemniad. Yr oedd digon o gredinwyr yn ei oes nad oeddynt yn cael dim anhawster i gredu fod y ddaear yn cylchdroi'r haul. Gwyddent yn iawn fod y Beibl yn defnyddio iaith sydd yn disgrifio yr hyn y mae'r llygaid yn ei weld pan yw'n sôn am yr haul yn 'codi' (Pregethwr 1:5). Dyna wnawn ninnau heddiw. Nid iaith wyddonol a ddefnyddir yn y Beibl. Dengys hanes Galileo effeithiau iachus gwybodaeth wyddonol ar ein dulliau o ddarllen y Beibl, oherwydd sylwer mai ein gorfodi i ddarllen y Beibl *ar ei delerau ei hun* oedd yr effaith.[7] Ers y dyddiau hynny, cwestiwn oedran y ddaear ac esblygiad sydd (yn fwyaf amlwg) wedi ailgyflwyno'r cwestiynau meddyliol a oedd yn codi yn achos Galileo.

A'r ffaith amdani yw hyn: ganrifoedd cyn i ddaeareg neu fywydeg fodern ddechrau, a chanrifoedd cyn i wyddoniaeth fodern ddechrau, yr oedd yn yr Eglwys amryw ffyrdd o ddehongli hanes y creu yn Genesis. Pan ymddangosodd Darwin, maentumiodd nifer o ddiwinyddion ceidwadol – yn eu plith, B.B.Warfield, amddiffynnydd enwocaf y safbwynt ceidwadol ar ysbrydoliaeth y Beibl – nad oedd damcaniaethau Darwin yn eu poeni, ar y cyfan.[8] Iddynt hwy, beth oedd esblygiad ond dull Duw o greu a chynnal ei fyd? Gan na chredent fod awdur Genesis erioed wedi bwriadu ei ddarllenwyr i ddarllen yr holl hanes mewn termau llythrennol a gwyddonol, yr oedd y diwinyddion hyn yn meddwl am esblygiad fel disgrifiad gwyddonol o weithredoedd Duw.

Mae Gareth Wyn Jones yn cydnabod fod 'darganfyddiadau' gwyddonol yn agored i'w cywiro wrth i'n gwybodaeth ni ddatblygu, er fy mod yn amau y dylid pwysleisio yn fwy nag y mae ef yn ei wneud ansicrwydd ein theorïau.[9] Ond, beth bynnag, yr oedd Warfield ac eraill yn gywir yn eu dadl fod rhannau helaeth o Ddarwiniaeth yn hollol dderbyniol mewn egwyddor a heb fygwth theistiaeth o gwbl. Mae crefyddwyr (ac ambell i agnostic mewn awr o ryfeddod) yn diolch i Dduw am enedigaeth plentyn gan gymryd yn ganiataol fod prosesau naturiol bywydegol yn gweithredu. Yn ôl yr adroddiad, anogodd Iesu ei ddisgyblion i graffu'n fanwl ar yr adar i weld ei Dad yn eu bwydo.[10] Prin y chwarddodd rhyw ddisgybl disglair cyn-Ddarwinaidd gan ddweud wrtho nad oedd ffasiwn beth yn digwydd – fod yr adar yn eu bwydo eu hunain ac mai *hynny* y mae'r llygaid yn ei weld wrth graffu'n fanwl. Gallwn feddwl fod Iesu yn ddigon ymwybodol o hyn. Beth felly? A yw'r adar i'w hesbonio yn nhermau pwerau naturiol? A yw 'dewisiad naturiol' yn esbonio unrhyw beth am eu hanes a'u gweithgareddau? Yr ateb, mewn un ystyr o'r gair 'naturiol' yw: 'Wrth gwrs'. Y cwestiwn yw: beth sydd wrth wraidd a beth sydd yn cynnal pwerau naturiol? Nid esblygiad Darwin fel y cyfryw, a siarad yn fras, yw'r broblem o safbwynt crefydd. Yr anhawster yw'r casgliadau a fyn rhai eu clymu wrth ei ddamcaniaeth, sef fod esblygiad yn broses hollol fewnfodol na ddechreuwyd trwy law Creawdwr. Nid casgliad *gwyddonol* mo hynny ond casgliad *athronyddol* neu *grefyddol*.

Wrth droi at ddadl fanwl Gareth Wyn Jones, y peth cyntaf i sylwi arno yw ei osodiad fod rhai cwestiynau sydd (mae'n debyg) yn amhosibl eu hateb mewn termau gwyddonol (tud.15). Un o'r rhain yw: 'Beth a ragflaenodd y Ffrwydrad Mawr'? Fe'i hargyhoeddwyd nad yw 'Duw' yn esboniad credadwy. Yn anffodus, nid yw yn rhannu ei resymau dros wrthod y ddamcaniaeth fod y ffrwydrad, neu amodau'r ffrwydrad, yn annealladwy heb sôn am Dduw. Ar un adeg (daw enw Fred Hoyle i'r meddwl) gellid dadlau fod y cosmos wedi bodoli erioed. Deallaf fod astroffisegwyr heddiw i gyd yn cytuno fod ein byd ni wedi dod i fodolaeth mewn amser. Yr hyn sydd yn anghredadwy i nifer o gredinwyr crefyddol yw fod unrhyw un yn coelio o ddifrif fod y byd wedi dod i fodolaeth heb 'achos' personol. Yn ôl hen ddadl ganol oesol: (a) Ddaw dim i fodolaeth heb ei achosi; (b) daeth y byd i fodolaeth; (c) felly achoswyd y byd. Uniaethwyd 'Duw' gyda'r achos a achosodd y byd.

Nid wyf am asesu'r ddadl hon, ond mae'n werth i ni wybod a yw gwrthwynebwyr theistiaeth am i ni gredu, yng ngeiriau Terry Pratchett yn rhywle: 'Yn y dechreuad, nid oedd dim; yna, fe ffrwydrodd'. Flynyddoedd yn ôl gohebais â'r Cemegydd anffyddiol, Peter Atkins. Ar ôl gwrando arno'n trafod ar y teledu (a minnau heb ei adnabod), ysgrifennais ato i gydymdeimlo â'i wrthwynebiad ffyrnig tuag at athronydd crefyddol (Cristnogol) a oedd ar yr un rhaglen, ond fe ofynnais iddo beth a wnâi o'r hen ddadl uchod. Er syndod i mi, braidd, fe gefais ateb cwrtais yn cytuno *fod* 'dechreuad di-achos' yn broblem ond yn cwyno nad oedd diwinyddion yn poeni am y fath broblemau. Ond y ffaith amdani, wrth gwrs, yw eu bod wedi eu trafod ers canrifoedd.

Mae'r casgliad fod rhyw syniad o 'Dduw' yn esbonio bodolaeth y byd yn gasgliad pwysig, *os* yw hynny'n gasgliad dilys, ond nid yw hynny yn arwydd pendant o'r Duw mae Cristnogion yn credu ynddo, a hyn, yn hytrach na theistiaeth yn gyffredinol, sydd o

ddiddordeb i mi. O edrych ar y byd heb godi cwestiwn ei ddechreuad, mae'n arddangos nodweddion anhrefn a'r drwg yn gymaint â nodweddion trefn a daioni. Ond hyd yn oed os bernir mai afresymol yw materoliaeth yn wyneb problem dechreuad y byd, nid i gyfeiriad y byd naturiol y mae Cristnogion yn edrych am arwyddion o natur Duw. Meddai awdur yr erthygl: 'Nid oes tystiolaeth gredadwy bod y grymoedd sy'n gyrru'r bydysawd neu fywyd ar y blaned hon yn 'ddaionus' neu'n 'dda' mewn unrhyw ffordd y gallwn ei hamgyffred' (tud.15). Ond lle y chwiliodd am y dystiolaeth? Yn y byd a ymchwilir gan wyddonwyr? Os felly, does dim syndod nad yw'n dod o hyd i dystiolaeth yn y fan honno. Yn sicr, nid dyna lle mae Cristnogion yn cael eu tystiolaeth. Dyna arwyddocâd yr hyn a ddywedais yn gynharach ynglŷn â 'hanes'. Ymddengys mai ystyr 'nid oes tystiolaeth gredadwy' yw 'nid oes tystiolaeth gredadwy o edrych ar y byd naturiol'. Ond nid yr un gosodiadau mohonynt. Yn rhesymegol, nid yw'r ail osodiad yn arwain i unrhyw ganlyniad am fodolaeth Duw, oherwydd efallai fod rhywun yn edrych yn y lle anghywir.

Pwysleisir yn yr erthygl fod *pwrpas* Duw'r crefyddwr traddodiadol yn anweladwy. Mae'n debyg fod esboniadau naturiol-wyddonol yn ddigonol. Nid oes angen mwy na hynny. Ond rhaid dadansoddi'r cysyniad o 'bwrpas' yn ofalus. Yn ein profiad dynol, amhosibl dirnad 'pwrpas' yn y ffordd y gellir dirnad 'achos'. Mae'n bosibl i chi gynnig esboniad o sut yr euthum i Gaerdydd ddoe yn nhermau *achosion* corfforol, ond mae fy *mhwrpas* yn guddiedig i raddau. Awgrymir y gellid esbonio fy mhwrpas mewn egwyddor petai gennym wybodaeth fanwl a chynhwysfawr o holl weithrediadau'r ymennydd yn gweithio. Mae hyn yn ddadleuol ond, beth bynnag am hynny, amhosibl archwilio Duw fel yr archwiliwn bethau corfforol. Yn ôl Richard Dawkins, un rheswm o blaid anffyddiaeth yw fod esblygiad yn dangos fod endidau cymhleth yn datblygu mewn amser allan o endidau mwy syml; eto canfyddir 'Duw', sydd yn Fod llawer mwy cymhleth na dynoliaeth, cyn dechrau amser, yn ôl theistiaeth! Dadl hollol wag! Yn ôl y traddodiad Cristnogol, nid yw Duw yn 'gymhleth'. Nid yw yn faterol na chorfforol ac nid yw'n agored i ddadansoddiad gwyddonol. Os oes y fath Fod i'w gael, nid yw ei bwrpas yn debyg o fod yn agored i archwiliad yn yr un modd ag y mae achosion corfforol.

Ond dyma ni, efallai, yn cyrraedd at hanfod y broblem fel mae Gareth Wyn Jones yn ei deall, a dyma ni hefyd yn dod i gyffiniau y tswnamis 'bach'. Cwestiwn dioddef a'r drwg, gan gynnwys gwastraff, yw craidd y broblem. Er y gall Cristnogion awgrymu hyn a'r llall mewn ymateb i'r penbleth, mae'r Ysgrythurau ei hunain yn trin y drwg fel rhywbeth anesboniadwy. Mae penodau cynnar Genesis – a ddarllen-wyd yn llythrennol, yn symbolaidd, neu yn gymysgedd o'r ddau yn hanes yr eglwys – yn awgrymu hyn yn lled glir. Yn ôl y stori, fe wnaethpwyd y byd yn dda, ond dyma sarff cyfrwys yn ymddangos ym Mharadwys â'i fryd ar ddenu Efa ac Adda oddi wrth eu hymlyniad at Dduw. O ble y daeth y sarff? Nid oes neb yn gwybod. A dyna un o amcanion yr hanes, mae'n sicr. Mae'r drwg yn annealladwy. Mae'r holl fyd, meddai un o awduron y Testament Newydd, 'yn gorwedd yng ngafael yr Un Drwg' (1 Ioan 5:19). Cydnebydd Gareth Wyn Jones fod rhai pethau na ellid eu hesbonio (mae'n debyg) yn wyddonol. Cytunaf. Credaf hefyd fod rhai pethau na ellid eu hesbonio yn ddiwinyddol (*mwy* na thebyg – yn llythrennol). Yr wyf yn sicr ei fod yn cytuno â mi! Ond nid yw anallu gwyddoniaeth i fynd yn bellach na rhyw bwynt arbennig yn effeithio ar ddilysrwydd ei ddaliadau o fewn ei chwmpas. Ac nid yw anallu diwinyddiaeth i fynd yn bellach na rhyw bwynt arbennig yn effeithio ar ddilysrwydd ffydd o fewn ei chwmpas.

Nid wyf am fod yn bendant lle nad yw pendantrwydd yn bosibl, ond ys gwn i a yw nifer ohonom yn euog o gamddehongli penodau cyntaf Genesis? Onid ydynt yn awgrymu presenoldeb marwolaeth yn y byd cyn i ddynoliaeth ymddangos? Ydyw bwystfilod gwyllt Genesis 1:25 i gyd yn llysysorion (*herbivores*)? A yw 'peisiau crwyn' Adda ac Efa yn rhagdybio marwolaeth anifeiliaid (3:21)? Yn ddiddorol iawn, mae Cain, mab Adda, yn

bryderus rhag ofn y bydd pobl eraill yn ei ladd (4:14-15) gan fyw a phriodi, mae'n debyg, ymhlith pobl y tu allan i Eden (4:16-17). Ond gwn fod gwahanol ddehongliadau yn bosibl.

Mewn egwyddor, nid oes anhawster mewn meddwl am ddynoliaeth fel rhan o drefn esblygiadol. Efallai fod nifer o ddaliadau neo-Ddarwiniaidd yn ddamcaniaethol ar y gorau ac yn anghywir ar y gwaethaf, ond, i raddau helaeth, mater i wyddonwyr ac athronwyr gwyddoniaeth yw hynny, ond iddynt lynu at wyddoniaeth ar y naill law, a rhesymeg fanwl ar y llaw arall. Mae'r Beibl yn diffinio dynoliaeth o safbwynt diwinyddol. O'r safbwynt hwn, yr hyn sydd yn nodweddu dynoliaeth – beth sydd yn gwneud dynoliaeth yn ddynoliaeth, fel petai – yw'r gallu i glywed gair Duw. Nodwedd 'ysbrydol' yw hon ynghlwm wrth y syniad o 'ddelw Duw'. Ond nid yw sôn am nodwedd ysbrydol unigryw yn golygu fod dynoliaeth wedi dod i fodolaeth ar wahân i'r broses esblygol, o leiaf mewn egwyddor. Digon rhwydd credu fod cyfansoddiad corfforol dynoliaeth mewn cysylltiad agos â'r byd anifeilaidd. (Fe gofiwn fod dynoliaeth wedi'i chreu ar yr un diwrnod ag anifeiliaid y tir yn Genesis 1 ac mai allan o'r llwch – sef elfennau corfforol y ddaear – nid allan o ddim, y crewyd Adda yn Genesis 2.) Ond nid dim ond casgliad o nodweddion corfforol yw dynion a gwragedd. Mae ganddynt alluoedd ysbrydol wedi eu gwreiddio yn eu natur gorfforol. Nid oes rhaid i ni wahanu corff ac enaid yn null y ddeuoliaeth Gartesaidd. Gellid sôn am *wahaniaethau* heb *ymwahanu* rhwng yr hyn a elwir yn 'fater' a'r hyn a elwir yn 'ysbryd'. Cytunaf fod niwro-wyddoniaeth yn mynd i fod yn ddadlennol yn y dyfodol. Diddorol sylwi ar gyfrol ddiweddar ym maes niwro-wyddoniaeth sydd yn dadlau, o safbwynt gwyddonol, fod esboniad materol yn amhosibl ond sydd yn mynd ymlaen i esbonio sut y mae profiadau crefyddol a chyfriniol (hollol ddilys o ran eu gwrthrych) yn gysylltiedig â rhannau penodedig o'r ymennydd corfforol.[11] Nid yw diwinyddion yn wyddon-wyr. Ond maent yn deall, ar y naill law, y gellid dadansoddi profiadau crefyddol *mewn egwyddor* mewn termau corfforol niwro-wyddonol i ryw raddau ac y maent yn argyhoeddiedig, ar y llaw arall, fod cwestiynau ynglªn â natur rhyddid, ymwybyddiaeth yn gyffredinol, ymwybyddiaeth foesol a hunan-ymwybyddiaeth yn ein cymryd ni ymhell y tu hwnt i'r hyn a all gwyddoniaeth, fel gwyddoniaeth, ei esbonio.

O ran presenoldeb marwolaeth yn y cosmos, 'rwy'n dueddol i gredu ein bod yn symud mewn byd pur ddamcaniaethol o ran diwinyddiaeth. Mae'n amlwg fod marwolaeth yn rhan o wead y cosmos sydd bellach yn drigfan i ddynoliaeth. Ond mae'n amlwg hefyd mai cosmos gwahanol iawn i'r hyn sydd gennym ni fyddai cosmos lle y bu dynoliaeth yn ufudd i'r Creawdwr. Tystia'r Beibl i'r ffaith fod rhywbeth hollol drychinebus wedi digwydd yn hanes dynoliaeth ac felly yn hanes y byd. Anodd dychmygu'n eglur iawn sut i feddwl am y gwahanol bosibiliadau, mewn unrhyw fanylder, tra ydym yn byw yn y cosmos fel y mae. Amheuaf fod gennym gryn dipyn i'w ddysgu eto ynglŷn â marwolaeth fywydegol.[12] Ond os cafodd systemau byw eu difa ar y ffordd i wneud lle i *homo sapiens* – sydd yn wendid yn y ddealltwriaeth theistaidd, ym marn awdur yr erthgyl – onid yw hyn yn gallu arwyddo mor werthfawr yw dynoliaeth yng ngolwg Duw? Mae esblygiad di-dduw yn gadael dynoliaeth fel cynnyrch pfier dall y cosmos; os oes iddi werth, rhaid i bobl ddyfeisio gwerth drostynt eu hunain. Ac os dywed deiliaid esblygiad neo-Ddarwinaidd 'annuwiol' fod y byd yn llawn rhyfeddod a llawn gwerth, a bod dynoliaeth yn rhan o'r byd gwerthfawr hwn, rhaid i ni gofio: *rhai* unigolion sydd yn dod i'r penderfyniad hwn am werth y byd; mae'r byd ynddo ei hun nid yn unig yn fud ond hefyd yn amddifad o werth mewnfodol o safbwynt gwyddoniaeth fel y cyfryw.

Dyna pam y disgrifiais awgrym cadarnhaol Gareth Wyn Jones fel rhith, yn y pen draw. Mae'n ymosod ar foeseg rhai grwpiau crefyddol, gan gynnwys Americanwyr asgell dde. Fe fydd nifer o grefyddwyr yn cytuno gyda llawer yn ei ymosodiad, ac fe gofiwn mai gelynion pennaf crefydd Israel gynt oedd proffwydi'r genedl. Ond ar ba sail y mae ef ei hun yn cynnig gwerthoedd gwahanol? Y mae am gymeradwyo cariad a thosturi fel

hanfodion moesegol ac yr wyf yn gwerthfawrogi hyn. Ond, o safbwynt ei *wyddoniaeth*, beth yw hyn ond sentiment? Nid oes dim ym mhroses esblygiad sydd yn ein cyfarwyddo i ymddwyn felly. Efallai fod cymdeithas yn cydlynu yn well o ymddwyn felly, ond mae hynny'n beth gwahanol i werth neu urddas sydd ynghlwm yn annatodadwy wrth holl fodolaeth gwragedd a dynion. Yn wir, nid yw dewisiad naturiol Darwin, heb gyd-destun eangach, yn awgrymu neu arwyddo gwerth cariad. Digon rhwydd ymosod ar yr asgell dde grefyddol. Ond a yw Gareth Wyn Jones o ddifrif yn credu y byddai'r byd yn lle saffach petaem i gyd yn neo-Ddarwiniaid? Os felly, rhaid i mi fod yn onest a dweud fod ganddo fwy o ffydd na'r un Ffwndamentalydd. Nid yw'n peri dim llawenydd i mi ddweud hyn; i'r gwrthwyneb, rhaid croesawu pob dymuniad i weld cariad yn llywio a llywodraethu a phe gellid grymuso'r ddadl o blaid moeseg cariad o fewn fframwaith neo-Ddarwiniaeth 'annuwiol', fe fyddwn yn bersonol yn ddigon balch.

Beth, felly am y tswnamis 'bach'? Y mae eich Tad nefol, meddai Iesu, 'yn peri i'w haul godi ar y drwg a'r da, ac yn rhoi glaw i'r cyfiawn a'r anghyfiawn' (Mathew 5: 45). Sut? Yn yr un ffordd ag y mae yn bwydo'r adar. Os felly, onid yw'r tswnamis i'w hesbonio hefyd yn nhermau prosesau naturiol? 'Neu'r deunaw hynny y syrthiodd y tŵr arnynt yn Siloam a'u lladd, a ydych chwi'n tybio fod y rhain yn waeth troseddwyr na holl drigolion eraill Jerwsalem?' (Luc 13:4). Hyn, yn fy marn i, yw'r ymateb Cristnogol i'r ddadl fod y tswnami, neu ryw drallod arall, yn arwydd o farn Duw mewn ffordd y gallwn ei dehongli'n benodol. Nid wyf yn amau fod yn rhaid i ni ddadansoddi ein cysyniadau yn fanwl iawn wrth fentro i mewn i'r maes hwn – un o broblemau trafodaethau poblogaidd ar grefydd yw fod gwahaniaethau cysyniadol holl-bwysig (holl-bwysig yn *ddirfodol*, nid o fewn gêm academaidd) yn mynd ar goll. O ran *pwrpas*, amhosibl meddwl mewn termau hollol syml. Un rheswm yw hyn: mae pwrpas Duw yn fater o'r berthynas rhwng Duw a'r unigolyn. Gall nifer o bobl edrych yn ôl ar ddiwedd eu bywydau a gweld gwahanol bwrpasau gan Dduw yn yr un digwyddiad ac efallai eu bod i gyd yn iawn. Ar ganfas helaethach, gellid sôn am bwrpas Duw ar gyfer cymuned, gwlad, gwareiddiad neu fyd ac ati dim ond trwy ddadansoddi yn fanwl y gwahanol sefyllfaoedd. Yr wyf fi fy hun – a gwn y bydd llawer o'm cyd-Gristnogion yn anghytuno â mi – yn gyndyn o fynnu sôn am ryw bwrpas 'uwch', gwrthrychol a chynhwysfawr y tu ôl i tswnami. A siarad yn gyffredinol, yr unig 'bwrpas uwch' y gwn i amdano yw pwrpas eschatolegol Duw ar gyfer y byd, pwrpas sydd heb eto ei gyflawni. Nid wyf yn argyhoeddiedig fod yn rhaid i ni ffitio trychinebau i fewn i ryw fframwaith ehangach. Mae'r drwg yn wirioneddol ddrwg, er y derbyniaf y gall daioni ddod allan o ddrwg i hwn a'r llall, ac yn sicr mae'r credadun yn gwybod am gariad a chynhaliaeth Duw drwy'r cyfan, ac yn nirgelion ei berthynas â Duw yn cael cip, o bryd i'w gilydd, ar beth o bwrpas hyn a'r llall ar gyfer hwn neu'r llall.

Ond ai cwestiynau meddyliol yw'r cwestiynau hyn yn y bôn? Nid oedd neb craffach, gallwn feddwl, na Friedrich Nietzsche, gelyn di-ildio y ffydd Gristnogol, yn ei ddealltwriaeth a'i ddehongliad o anffyddiaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Credai mai anghydlynol oedd pob ymdrech i ddal at foeseg 'wrthrychol' heb gadw'r seiliau crefyddol.[13] Mentrodd ddadlau mai gwendid islaw pob dirmyg oedd tosturi.[14] Nid wyf am farnu rhinweddau ei ddadl, er bod mesur o gysondeb yn ei ymresymiad. Yn un o'r gweithiau lle yr oedd wrthi yn datblygu ei syniadau ar foeseg, fe wnaeth sylw treiddgar: 'Beth sydd yn cyfrif yn erbyn Cristnogaeth yn ein dyddiau ni yw ein *blas* ar bethau, nid ein *rhesymau*'.[15] Tybiaf ei fod yn gywir ac yn broffwydol, hyd yn oed. Yr hyn sydd yn tramgwyddo yn y syniad o Dduw trosgynnol, yn bennaf, yw ein bod yn gyfrifol ger ei fron.[16]

Gadewch i mi bwysleisio nad wyf yn anelu'r geiriau hyn at Gareth Wyn Jones ei hun am eiliad. Mae crefyddwyr yn euog o ganiatáu i'w dymuniadau lywio eu syniadau, fel mae pawb arall. Ymddengys fod nifer yn credu yn Nuw oherwydd fod hyn yn eu cysuro – sail annigonol sydd yn haeddu beirniadaeth beirniaid crefydd. Ac nid wyf am awgrymu

nad yw ffactorau meddyliol yn bwysig. Meddyliwr diwinyddol mwyaf dylanwadol y Gorllewin oedd Awstin Sant. Bu mewn anialwch ysbrydol a meddyliol am flynyddoedd oherwydd yr anhawster a oedd ganddo i ddeall y cysyniad o Dduw fel endid ysbrydol, anghorfforol. Digon gwir fod rhwystrau eraill yn ei fywyd personol hefyd, a'r rheiny yn fwy pwysig byth, efallai. Serch hynny, fe ddylai profiad Awstin ennyn ym mhob crediniwr traddodiadol gydymdeimlad tuag at anawsterau meddyliol ynglŷn â'r cysyniad o Dduw. Ond camsyniad yw meddwl fod gwyddoniaeth yn herio o ddifrif y fath gysyniad.

Nid wyf wedi ceisio ymateb i bob dim yn yr erthygl dan sylw. Gobeithiaf, yn hytrach, i rai o'r adnoddau sydd gennym o fewn y traddodiad Cristnogol i ymateb i'w dadleuon, gael eu harddangos.[17] Cristnogaeth biau'r her, mi gredaf. Craidd y ffydd Gristnogol yw'r honiad fod Iesu o Nasareth, a groeshoeliwyd ac a atgyfodwyd oddi wrth y meirw, yn Dduw yn y cnawd, a rhaid i'r sawl sydd am ymwrthod â'r honiad roi rhyw gyfrif o Iesu o Nasareth. Nid Duw llwythol a chul sydd gennym yma. Dyma'r rhesymeg: mae pob person yn gyfyngedig i gorff a lle ac amser; yr ydym yn byw unwaith ac yn marw unwaith. *Os* yw Duw cariad yn bodoli, sut y gall nesáu at greaduriaid yn fwy na thrwy iddo ddod mewn cnawd dynol i fewn i'w fyd ei hun? Ond, os felly, rhaid i Dduw sydd am gyfranogi o'n cyflwr fod mewn un corff, un lle ac un amser. Os cyfyngir datguddiad arbenicaf Duw i un man a lle, arwydd o'i gariad yw hyn, nid arwydd o Dduw anghynhwysol.

Rhaid rhoi cnawd ar ysgerbwd y ddadl hon, wrth gwrs, ond nid oes cyfle yma i fynd ar ôl holl sylwedd perthnasol Cristnogaeth – arwyddocâd marwolaeth Crist, yr Ysgrythurau, diben dynoliaeth ac ati. Rhannaf â Gareth Wyn Jones yr argyhoeddiad fod prinder cariad yn elyn mawr ac erchyll. Ond credaf mai pen draw rhesymeg esblygiad naturiol heb Dduw trosgynnol yw anobaith, onibai fod rhywun yn osgoi anobaith drwy ynysu ei hunan oddi wrth boen y byd, ac yntau â'r gallu materol i wneud hynny. Os nad oes y fath Dduw i'w gael, rhaid derbyn hynny a byw gydag anobaith; efallai fod hynny, yn y pen draw, yn well na chysuro ein hunain gyda rhyw rith o grefydd. Wn i ddim. Nid yw ffydd Gristnogol yn datrys pob penbleth meddyliol. Ond nid yw yn ein tywys i anobaith. Ac y mae ganddo reswm am obeithio (1 Pedr 3:15).

STEPHEN NANTLAIS WILLIAMS
Belfast

Nodiadau

1 -Mae meddwl 'Oes Oleuedig' y ddeunawfed ganrif yn amrywiol; cyfleusdra yn unig sydd y tu ôl i'r disgrifair cyfarwydd.

2 -Leslie Stephen, *English Thought in the Eighteenth Century*, cyfrol 1 (London: Smith & Elder, 1876), 34.

3 -Dyma ddarlun Locke ar y cyfan yn ei gyfrol fawr, *An Essay concerning Human Understanding* a hefyd yn *The Reasonableness of Christianity*. Nid oedd yn wastad yn dadansoddi'r cwestiwn yn hollol yn yr un ffordd.

4 -Gweler nid yn unig gyfrol fel *The God Delusion*, a gafodd gymaint o gyhoeddusrwydd, ond hefyd gyfrolau cynharach fel *The Selfish Gene* (Oxford: Oxford University Press, ailargraffwyd 2006).

5 Gweler tdau 198 a 330 yn *The Selfish Gene*.

6 -Gweler hefyd Paul yn 1 Corinthiaid 15: 6 sydd fwy neu lai yn gwahodd ei ddarllenwyr i wneud eu hymholiadau eu hunain. Ac a oedd Thomas yn rhesymol i *wrthod* tystiolaeth unedig ei gyd-ddisgyblion dan yr amgylchiadau?

7 -Wrth gwrs, y cwestiwn pwysig i Gristnogion oedd beth i'w wneud yn achos gwrthdrawiad rhwng gwyddoniaeth a'r Beibl *ar ei delerau ei hun*. Mae rhagdybiaethau y tu ôl i'r cwestiwn a gymerai amser i'w dadansoddi.

8 -Gweler David Livingstone, *Darwin's Forgotten Defenders* (Vancouver: Regent, 1997) a B.B.Warfield, *Evolution, Science and Scripture: Selected Writings* (Grand Rapids: Baker, 2000), golygwyd a chyflwynwyd gan David Livingstone a Mark Noll.

9 -Mae gwaith Kuhn, Popper, Feyerabend a Lakatos yn berthnasol yma er yn mynd i eithafion, i bob golwg: gweler dadl ddeifiol D.C. Stove, *Popper and After: Four Modern Irrationalists* (Oxford: Pergamon, 1982).

10 -Mae'r gair Groeg a gyfieithir yn Matthew 6:26 fel 'edrychwch' yn gryfach: 'edrychwch yn ofalus', neu rywbeth tebyg.

11 -Mario Beauregard & Denyse O'Leary, *The Spiritual Brain: A Neuro-scientist's Case for the Existence of the Soul* (New York: HarperCollins, 2007).

12 -Yr wyf yn cael ar ddeall nad yw marwolaeth yn angenrheidiol o safbwynt bywydegol: John Wyatt, *Matters of Life and Death* (Leicester: IVP, 1988), 64.

13 -Gweler ei ymosodiad ar y Saeson, yn enwedig George Eliot yn *Twilight of the Idols* IX.5, cyf.Duncan Large (Oxford: Oxford University Press, 1998).

14 -Mae'r Almaeneg, *Das Mitleid*, yn cael ei gyfieithu fel tosturi neu gydymdeimlad ('compassion', 'pity' neu 'sympathy') mewn gwahanol gyfieithiadau Saesneg o waith Nietzsche.

15 -*The Gay Science*, cyf. J.Nauckhoff (Cambridge: Cambridge University Press, 2001), 3.132; fy mhwyslais i.

16 -'Yn ddi-eithriad, y bwriadau moesol (neu anfoesol) ym mhob athroniaeth yw'r gwir hedyn byw o'r hwn y tyfodd yr holl blanhigyn': Nietzsche, *Beyond Good and Evil*, cyf. Judith Norman (Cambridge: Cambridge University Press, 2002), 1.6.

17 -Mae angen i ni gyd, yn y drafodaeth hon, geisio deall ein gilydd yn well. E.e., nid wyf yn deall pam y mae'r hyn a ddatguddir yn wyddonol am 'undod sylfaenol pob ffurf byw' yn agosach i Fwdïaeth nag i Gristnogaeth (tud.13).